# PWYLLGOR PERSONÉL

**(Via Microsoft Teams)**

| **Members Present:** | **Dydd Llun, 20 Medi 2021** |
|---|---|
| **Chairperson:** | **Councillor D.Jones** |
| **Councillors**: | S.Bamsey, J.Hale, N.T.Hunt, J.Jones a/ac A.J.Taylor |
| **Non Voting Members:** | Councillors C.Clement-Williams, P.A.Rees a/ac P.D.Richards |
| **Officers in Attendance:** | C.Lewis, A.Hutchings a/ac N.Jones |

---

1. **Cofnodion cyfarfodydd blaenorol (mis Ionawr, Mawrth a Mehefin 2021)**

Nodwyd cofnodion cyfarfodydd Ionawr, Mawrth a Mehefin 2021.

2. **Blaenraglen Waith**

Nodwyd y Blaenraglen Waith.

3. **Adroddiad Gwybodaeth am y Gweithlu - Chwarter 1**

Derbyniodd y Pwyllgor wybodaeth am Adroddiad Gwybodaeth y Gweithlu Chwarter 1 fel y manylir arno yn yr adroddiad a gylchredwyd.

Gofynnodd yr aelodau mewn perthynas â'r 41% a oedd yn gysylltiedig ag addysg, a beth oedd y rheswm am hynny. Esboniodd swyddogion fod yr ysgolion yn dal i ariannu’r tasglu salwch ysgolion a oedd yn canolbwyntio ar absenoldeb salwch yng nghanol gweithlu'r ysgol yn unig. Roedd COVID-19 wedi cael effaith fawr. Y gweithlu addysg yw'r gweithlu mwyaf, a oedd yn adlewyrchu pam fod y niferoedd mor uchel.

Gofynnodd yr aelodau pa mor ddibynadwy oedd yr ystadegau cenedlaethol ar gyfer y diwrnodau cyfartalog a gollwyd. Dywedodd swyddogion fod yr uned ddata llywodraeth leol fel arfer yn darparu'r

data ond nid dyma'r achos eleni, felly roedd y Cyfarwyddwyr AD wedi rhannu'r wybodaeth berthnasol.

**PENDERFYNWYD:** nodi'r adroddiad.

4. **Adroddiad am y Cynllun Cyflogwyr Chwarae Teg**

Derbyniodd y Pwyllgor wybodaeth am y Cynllun Cyflogwr Chwarae Teg fel y manylir yn yr adroddiad a gylchredwyd.

**PENDERFYNWYD:** nodi'r adroddiad.

5. **Adroddiad Dyfodol Gwaith**

Derbyniodd y Pwyllgor wybodaeth am Gynllun Gwaith y Dyfodol fel y manylir yn yr adroddiad a gylchredwyd.

**PENDERFYNWYD:** nodi'r adroddiad.

6. **Adroddiad Disgresiynau'r Cynllun Pensiwn**

Derbyniodd y Pwyllgor wybodaeth am yr Adroddiad Disgresiynau Cynllun Pensiwn fel y manylir yn yr adroddiad a gylchredwyd.

**PENDERFYNWYD**: cymeradwyo'r diwygiadau i'r Polisi Disgresiynau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

7. **Protocol Gwirfoddol ar gyfer Cydnabod Gwasanaeth Parhaus**

Derbyniodd y Pwyllgor wybodaeth am y Protocol Gwirfoddol ar gyfer Cydnabod Gwasanaeth Parhaus fel y manylir yn yr adroddiad a gylchredwyd.

Holodd yr aelodau ynghylch y ffaith nad oedd yr adroddiad yn sôn am y gwasanaeth sifil etc. ac roeddent am wybod a oedd y rhain wedi'u heithrio neu pam na chawsant eu crybwyll yn yr adroddiad.
Dywedodd swyddogion y byddent yn rhoi adborth gyda'r wybodaeth gywir.
Cyfeiriodd yr Aelodau at yr effaith ariannol, a oedd Llywodraeth Cymru wedi cwblhau unrhyw holiaduron neu ymchwil. Dywedodd swyddogion y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi gwneud ymchwil, byddent yn cysylltu â nhw ac yn rhoi adborth i'r pwyllgor. Gofynnodd yr Aelodau am ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru.

**PENDERFYNWYD:** nodi'r adroddiad.

8. **Mynediad i gyfarfodydd**

Yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y cyhoedd o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 12 ac 15 Adran 4 Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

9. **Diweddariad am y Trafodaethau Cyflog Cenedlaethol, Medi 2021**

**PENDERFYNWYD:** Nodi'r Trafodaethau Cyflog Cenedlaethol fel y manylir arnynt yn yr adroddiad preifat a gylchredwyd.